Swansea University
Prifysgol Abertawe

Health, Safety & Resilience
Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch

# Polisi Iechyd a Diogelwch:
# Rhan 1 - Datganiad o Fwriad

## HSR-10100-01

## Cynnwys

Rheoli'r ddogfen....................................3
Cofnod Diwygio....................................3
1. Rhagair yr Is-ganghellor....................................4
2. Cwmpas y Polisi ....................................4
3. Datganiad o Fwriad....................................4

## Rheoli'r Ddogfen

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen | Polisi Iechyd a Diogelwch: Rhan 1 Datganiad o Fwriad |
| Cyfeirnod y Ddogfen | HSR-10100-01 |
| Diwygiad | 3.0 |
| Dyddiad Cyhoeddi | Mai 2026 |
| Lluniwyd gan | Louise Nowell |
| Adolygwyd gan | Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch |
| Cymeradwywyd gan | Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch |
| Cyswllt E-bost | healthandsafety@abertawe.ac.uk |

## Cofnod Diwygio

| Diwygio | Dyddiad | Diwygiad(au) |
|---|---|---|
| **0** | | Drafft |
| **1.0** | 05/03/18 | Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch presennol |
| **1.1** | 24/07/18 | Diwygiwyd yn sgîl cael cyngor cyfreithiol allanol (Blake Morgan). |
| **2.0** | Mis Hydref 2018 | Ailddrafftio ac ailstrwythuro'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn gyfan gwbl.<br>Gwrthodwyd y Polisi yn sgîl trafodaeth yng nghyfarfod yr Uwch-dîm Rheoli. Awgrymwyd diwygiadau |
| **2.1** | Mis Gorffennaf 2019 | Ail-ddrafftio strwythur y Polisi Iechyd a Diogelwch yn dair rhan.<br>**Rhan 1 Datganiad o Fwriad y Polisi Iechyd a Diogelwch**<br>Rhan 2 o ddogfen Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd y Sefydliad (yn destun Ymgynghoriad) |
| **2.2** | Mis Ionawr 2021 | Cyflwynwyd y Drafft Terfynol i'r Uwch-dîm Rheoli i'w gymeradwyo yn ogystal â Rhan 2 o ddogfen Polisi'r Sefydliad |
| **2.3** | Mis Mawrth 2021 | Cyflwynwyd y fersiwn derfynol i'r Cyngor i'w chymeradwyo. |
| **2.4** | Mis Gorffennaf 2022 | Diweddarwyd y ddogfen i adlewyrchu'r Polisi Iechyd a Diogelwch a Threfniadau Llywodraethu |
| **3.0** | Mis Mehefin 2025 | Cafodd y ddogfen ei hadolygu a'i diweddaru, gan gynnwys mân newidiadau. Cafodd ei diweddaru gan ddefnyddio'r templed newydd a'r dull newydd o gyfeirnodi dogfennau |
| | Mai 2026 | Llofnod a Rhif Cyfres |

## 1. Rhagair gan yr Is-ganghellor

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i sicrhau y caiff ei gweithgareddau busnes eu cyflawni mewn ffordd nad yw'n achosi afiechyd neu anaf i staff, myfyrwyr, contractwyr neu unrhyw un y gallai'r gweithgareddau hynny effeithio arno, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae rheoli iechyd a diogelwch yn rhan annatod o reoli busnes cyffredinol ac yn ystyriaeth allweddol ym mhob agwedd ar gynllunio busnes a rheoli perfformiad.

Rydym yn ymrwymedig i wella'n perfformiad iechyd a diogelwch drwy ddarparu adnoddau priodol, arweinyddiaeth weladwy ac effeithiol a thrwy ddatblygu, gweithredu ac adolygu Polisi Iechyd a Diogelwch a System Rheoli Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

## 2. Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn a'r trefniadau cysylltiedig yn berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr, contractwyr, tenantiaid, partneriaid, ymwelwyr ac unrhyw un arall y gallai gweithgarwch y Brifysgol effeithio arno, a hynny ar bob campws ac ym mhob lle arall pan fo'r Brifysgol yn berchen ar y mangreoedd dan sylw neu yn eu defnyddio neu yn eu rheoli; a'r holl weithgarwch sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Brifysgol gan gynnwys teithio yn y DU a thramor.

Mae'r Polisi'n diffinio ymrwymiad y Brifysgol i iechyd a diogelwch ac yn rhoi manylion am sut y caiff yr ymrwymiad ei wireddu, gan gynnwys darparu adnoddau a chymhwysedd a thrwy ddarparu set helaeth o weithdrefnau ac arweiniad sy'n pennu'r safonau ar gyfer rheoli risgiau a grëir gan Brifysgol Abertawe fel rhan o'i gweithgarwch.

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn cynnwys tair rhan yn unol â gofynion deddfwriaethol fel a ganlyn: Mae Rhannau 2 a 3 yn ddogfennau Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch ar y cyd sy'n adlewyrchu strwythur prosesau rheoli Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch yn y Brifysgol. Mae Rhan 2 hefyd yn cynnwys Cynaliadwyedd i adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau gweithredol:

1. Datganiad o Fwriad y Polisi Iechyd a Diogelwch (HSR-10100-01)
2. Iechyd, Diogelwch, Gwydnwch a Chynaliadwyedd - Dogfen y Sefydliad (HSR-10100-02)
    - Strwythurau Llywodraethu a Phwyllgorau (HSR-10100-02a).
    - Trefniadau Llywodraethu; Partneriaethau, Tenantiaid, Cydweithrediadau, Is-gwmnïau a Chwmnïau Deillio'r Brifysgol (HSR-10100-02b).
3. Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch - Dogfen Trefniadau (HSR-10100-03)
    Dogfen lefel uchel sy'n nodi’r trefniadau, y gweithdrefnau, yr hyfforddiant a'r arweiniad sydd ar gael mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch.

## 3. Datganiad o Fwriad

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ymagwedd rheoli risgiau sy'n seiliedig ar arfer gorau a gwelliant parhaus,

gan ganolbwyntio ar ymagwedd ragweithiol at reoli risgiau a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch rhagweithiol a chadarnhaol yn barhaus drwy ddatblygu system reoli gadarn.

Mae hwyluso amgylchedd gwaith, addysgu ac ymchwil ysgogol a chyffrous sy'n ymgorffori rheoli risgiau iechyd a diogelwch mewn arferion busnes da yn flaenoriaeth allweddol.

Bydd egwyddorion sylfaenol rheoli risgiau iechyd a diogelwch wrth wraidd ein busnes er mwyn galluogi arloesi a dysgu, gan sicrhau bod ein staff, ein myfyrwyr a phobl eraill sy'n ymwneud â chymuned ein prifysgol yn ddiogel ac yn iach o ran y peryglon y gallent eu hwynebu fel rhan o weithgarwch y Brifysgol ac er mwyn sicrhau bod y rhai hynny sy'n creu risgiau yn deall y risgiau hynny ac yn eu rheoli mewn modd cyfrifol gydag adnoddau a chymorth digonol fel sy'n ofynnol.

Yn benodol, bydd Prifysgol Abertawe, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yn:

- Darparu adnoddau rheoli iechyd a diogelwch priodol ac yn rhoi'r Polisi hwn ar waith ynghyd â threfniadau cysylltiedig, drwy ddarparu cyflenwad digonol o staff, cymorth, cefnogaeth arbenigol, cyngor cymwys, amser a chyllid.
- Cynnal unrhyw le a reolir gan y Brifysgol gan sicrhau ei fod mewn cyflwr diogel a heb beri risgiau i iechyd ac yn
    - darparu ac yn cynnal ffordd o gyrraedd a gadael y lle hwnnw mewn modd diogel a heb beri risgiau.
    - Sicrhau y darperir cyfleusterau a threfniadau priodol ar gyfer lles.
- Darparu ac yn cynnal cyfarpar, offer a systemau gwaith sy'n ddiogel a heb beri risgiau i iechyd.
- Nodi peryglon sylweddol a allai godi o weithgarwch y Brifysgol, gan asesu'r risgiau a rhoi mesurau rheoli priodol ac effeithiol ar waith i liniaru a rheoli risg i lefel mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.
- Gweithredu systemau gwaith diogel sy'n dileu, yn lliniaru ac yn rheoli risgiau i iechyd a diogelwch.
- Gwneud trefniadau ar gyfer sicrhau diogelwch heb risgiau i iechyd mewn cysylltiad â defnyddio, trin, storio a chludo eitemau a sylweddau.
- Darparu offer diogelu personol i staff, myfyrwyr ac eraill yn ôl yr angen.
- Mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a hyrwyddo lles yn unol â gofynion Iechyd a Lles y Brifysgol.
- Darparu gwybodaeth, arweiniad, hyfforddiant a goruchwyliaeth yn unol â'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch cyflogeion, myfyrwyr a phobl eraill.
- Sicrhau cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol â chynrychiolwyr undebau llafur a chyflogeion o ran materion iechyd a diogelwch.
- Monitro effeithiolrwydd darpariaethau iechyd a diogelwch drwy weithdrefn gadarn ar gyfer archwilio ac arolygu, pennu targedau ac amcanion ar sail flynyddol a mesur cynnydd.
- Adolygu'n barhaus y Polisi Iechyd a Diogelwch hwn ynghyd â'r holl drefniadau, gweithdrefnau ac arweiniad sy'n gysylltiedig ag ef er mwyn sicrhau y cynhelir arferion gorau a chydymffurfiaeth gyfreithiol.

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu ar ran y Brifysgol gan:

**Llofnod (Cadeirydd y Cyngor)** **Dyddiad:** 22/05/2026

**Llofnod (Is-ganghellor)** **Dyddiad:** 10/06/2026

**Dyddiad Adolygu:** (Dwy flynedd ar ôl llofnodi neu os bydd newid sylweddol)